*These notes refer to the Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018 (c.4)*

# DEDDF RHEOLEIDDIO LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG (CYMRU) 2018

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Landlord cymdeithasol cofrestredig yn hysbysu am newidiadau cyfansoddiadol, etc.***

***Adran 4 – Cyfuno a newidiadau strwythurol eraill***

**Paragraff 12 o Atodlen 1**

19. Mae paragraff 12 o Atodlen 1 yn gymwys i landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

20. Mae adran 109 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn caniatáu i gymdeithas gofrestredig basio penderfyniad arbennig i gyfuno â chymdeithas arall. Mae adran 110 o'r Ddeddf honno yn caniatáu i gymdeithas gofrestredig basio penderfyniad arbennig i drosglwyddo ymrwymiadau rhwng cymdeithasau. Mae adran 112 o'r Ddeddf honno yn caniatáu i gymdeithas gofrestredig basio penderfyniad i'w throsi ei hun yn gwmni, i gyfuno â chwmni neu i drosglwyddo ei hymrwymiadau i gwmni. Rhaid anfon copi o'r penderfyniad at yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

21. Gall cymdeithas hefyd basio penderfyniad arbennig i ddirwyn y gymdeithas i ben yn wirfoddol o dan Ddeddf Ansolfedd 1986. Os yw cymdeithas yn gwneud hynny, rhaid iddi anfon copi o'r penderfyniad at yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

22. Gall cymdeithas sy'n solfent hefyd wneud cais i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol am gofrestru offeryn diddymu a fydd yn caniatáu iddi gael ei diddymu ac yn terfynu ei chofrestriad fel cymdeithas.

23. Gwneir diwygiadau i baragraff 12 o Atodlen 1 i ddileu'r gofynion i landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithas gofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i benderfyniad:

- i gyfuno â chymdeithas arall, i drosglwyddo ei ymrwymiadau i gymdeithas arall, i'w drosi ei hun yn gwmni cofrestredig, i gyfuno â chwmni neu i drosglwyddo ei ymrwymiadau i gwmni; neu
- i gael ei ddirwyn i ben yn wirfoddol o dan Ddeddf Ansolfedd 1986 neu drwy offeryn diddymu, ac
- yn lle hynny gosodir dyletswydd ar landlord cymdeithasol cofrestredig i hysbysu Gweinidogion Cymru am benderfyniadau o'r fath.

24. O ganlyniad i'r diwygiadau a wneir i baragraff 12 o Atodlen 1 gan adran 4, nid oes rhaid i landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithas gofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i benderfyniad i gyfuno â chymdeithas arall, i drosglwyddo ei ymrwymiadau i gymdeithas arall, i'w drosi ei hun yn gwmni cofrestredig, i gyfuno â chwmni neu i drosglwyddo ei ymrwymiadau i gwmni. Rhaid i'r landlord cymdeithasol cofrestredig hysbysu Gweinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau hysbysu a roddir ganddynt. I gael rhagor o wybodaeth am gyfarwyddydau hysbysu gweler paragraff 13A o Atodlen 1, a fewnosodir gan adran 5 o'r Ddeddf.

25. Yn ogystal â hynny, rhaid i unrhyw hysbysiad i Weinidogion Cymru ynghylch unrhyw un neu ragor o'r penderfyniadau y cyfeirir atynt yn y paragraff uchod (ac eithrio penderfyniadau i drosi cymdeithas yn gwmni) ddod gyda datganiad sy'n nodi'r modd yr ymgynghorodd y landlord cymdeithasol cofrestredig â'i denantiaid cyn pasio'r penderfyniad o dan sylw.

26. Nid yw'n ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i benderfyniad gael ei basio bod y landlord cymdeithasol cofrestredig yn cael ei ddirwyn i ben yn wirfoddol o dan Ddeddf Ansolfedd 1986 neu os yw'r landlord cymdeithasol cofrestredig i gael ei ddiddymu drwy offeryn diddymu. Rhaid i'r landlord cymdeithasol cofrestredig hysbysu Gweinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau hysbysu a roddir ganddynt. I gael rhagor o wybodaeth am gyfarwyddydau hysbysu gweler paragraff 13A o Atodlen 1, a fewnosodir gan adran 5 o'r Ddeddf.